**Pennaeth Economi a Chymuned**
**Head of Economy & Community**
Sioned E. Williams

Gofynnwch am/Ask for: Sioned E Williams
☎ (01286) 679547
SionedEWilliams@gwynedd.gov.uk

Ein Cyf / Our Ref: **SEW/gh**
Eich Cyf / Your Ref: P-04-562

4ydd o Fedi, 2014

Mr. William Powell, AC/AM,
Cadeirydd Pwyllgor Deisebau Llywodraeth Cymru,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd. CF99 1NA

(Stephen.George@wales.gov.uk)

Annwyl William Powell AC/AM,

**Deiseb 562: Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon**

Diolch i chi am eich llythyr a dderbyniwyd ar 31ain o Orffennaf, 2014 ar ran Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch deiseb i sefydlu Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon.

Ers rhai blynyddoedd bellach mae cynlluniau wedi eu trafod a'u gweithredu i wella dehongli treftadaeth Caernarfon. Mae Cyngor Gwynedd yn gefnogol iawn i'r egwyddor o ddatblygu Caernarfon fel cyrchfan treftadaeth a diwylliant o'r ansawdd orau ac yn ceisio'n barhaol i gefnogi datblygiadau nodweddiadol i wella'r dref.

Fel rhan o gynllun strategol y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2014 – 2017 mae blaenoriaeth wedi ei roi i 'Adeiladu ar ein Cryfderau' ac fel rhan o hyn bydd cynlluniau yn cael eu gweithredu i ddatblygu Glannau Caernarfon ger Safle Treftadaeth y Byd y Castell. Er bod elfennau o'r cynlluniau angen eu cadarnhau a'u datblygu ymhellach, mae'n debygol iawn y byddant yn cynnwys elfennau treftadaeth a chelfyddyd – sy'n cyd-fynd â'n gweledigaeth ar gyfer y dref.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi buddsoddi tua £60,000 mewn arddangosfa newydd, 'Ein Caernarfon' i ddehongli hanes Caernarfon yn Oriel Pendeitsh. Cyllidwyd y prosiect trwy brosiect Twristiaeth Treftadaeth Cadw a gyllidir trwy'r Gronfa Ddatblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'r arddangosfa ar sail llinell amser yn dehongli uchafbwyntiau treftadaeth Caernarfon a'r ardal ers y cyfnod cynhanes hyd heddiw. Yn ogystal â hyn, fe gyllidwyd nifer o baneli dehongli treftadaeth yng Nghaernarfon fel rhan o brosiect Adfywio a gyllidwyd gydag arian Cydgyfeirio Ewrop.

Yn dilyn y diddordeb sydd wedi ei ddangos yn yr arddangosfa 'Ein Caernarfon', rydym bellach hefyd yn rhaglennu arddangosfeydd treftadaeth yn y Ganolfan Groeso yn Oriel Pendeitsh gyda dogfennau o ddiddordeb lleol sydd ar gadw yn Archifdy Caernarfon.

Ar hyn o bryd, mae partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Phrifysgol Bangor yn gweithio ar brosiect i ail-ddatblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd ym Mangor. Mae'r prosiect £2.6m, a gyllidir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Prifysgol Bangor, Cyngor Celfyddydau Cymru a phartneriaid eraill; yn edrych i ail-ddatblygu Neuadd y Dref Bangor i fod yn amgueddfa agored a hygyrch fydd yn dehongli hanes cyfoethog Gwynedd ac yn cyfeirio pobl ymlaen i safleoedd o ddiddordeb ar draws y Sir.

Ein bwriad yw datblygu cyfres o lloerenni i'r amgueddfa newydd ar draws Gwynedd a bydd un o'r lloerennau hynny wedi eu lleoli yn Oriel Pendeitsh, Caernarfon. Nod y lloerennau fydd arddangos creiriau o ddiddordeb yn lleol ac hefyd i weithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu prosiectau treftadaeth. Fel rhan o'r prosiect rydym hefyd yn cydweithio efo Cadw i weithredu prosiectau treftadaeth cymunedol yn benodol yng Nghaernarfon ar safle Segontium.

Er bod Cyngor Gwynedd yn gefnogol i'r egwyddor o ddatblygu Canolfan Treftadaeth i Gaernarfon, mae llawer o drefi a chymunedau ar draws Gwynedd hefyd yn ceisio datblygu canolfannau tebyg ac felly mae'n rhaid rheoli disgwyliadau arnom. Yn anffodus, yn yr hinsawdd ariannol, nid oes modd i'r Cyngor ddatblygu canolfannau treftadaeth ym mhob cymuned o fewn y Sir, ond yn amlwg rydym yn fodlon cefnogi prosiectau cynaliadwy sy'n cael eu datblygu gan ein cymunedau. Byddai'r Cyngor felly yn croesawu cydweithio ar unrhyw ymdrechion sy'n cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru i gryfhau'r ddarpariaeth treftadaeth yn lleol.

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am y pwyntiau o godir uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Sioned E Williams

**Pennaeth Economi a Chymuned**